Cynllun Cofrestru Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus i Gymru

Public Health Practitioner Registration Scheme for Wales

# Arweiniad i Gyflogwyr a Rheolwyr Llinell

# Trosolwg

**Bwriedir hwn ar gyfer cyflogwyr sy'n cefnogi ymarferwyr i ddatblygu portffolio ôl-weithredol yn erbyn 34 o safonau Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU.**

I gael gwybodaeth am Gofrestru Ymarferwyr ar Gofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU CLICIWCH YMA

Mae rhagor o wybodaeth am ofynion y portffolio i'w cael yn y dogfennau isod:

- Gwybodaeth Ategol ar gyfer Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU
- Arweiniad Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU i Ymarferwyr, Aseswyr a Dilyswyr

## Crynodeb o'r camau gweithredu i gyflogwyr

1. Sefydlu cofrestriad/datblygiad ymarferwyr yn strategaeth eich gweithlu
2. Gofyn i bob ymarferydd cymwys a ydynt yn dymuno dechrau'r broses gofrestru
3. Rhoi cefnogaeth ac anogaeth i rai sy'n dechrau ar y broses gofrestru
4. Ymgysylltu â'r uwch dîm – mae dod yn asesydd/dilysydd yn DPP ardderchog
5. Edrychwch sut allwch chi helpu drwy ddysgu am ofynion y portffolio

# Cynnwys


Cefndir y Cynllun **4**

Cofrestru Ymarferwyr ar Gofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU – beth mae'n ei olygu? **6**

Cynllun Cofrestru Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru – beth mae'n ei olygu? **9**

Yr hyn a ddisgwylir oddi wrth Reolwyr **11**

Crynodeb o'r Camau Gweithredu i Gyflogwyr **14**

# Cefndir y Cynllun

**Prif ddiben rheoleiddio gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol, yw gwarchod, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd. Caiff hyn ei wneud drwy sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gymwys, bod ganddynt ddigon o brofiad a'u bod yn glynu wrth safonau ymarfer moesegol y cytunwyd arnynt.**

Diben Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd y ceir gweithlu cymwys sy'n cyfrannu at wasanaeth iechyd cyhoeddus o ansawdd uchel. Mae Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU yn dal cofrestr o weithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol, ac mae ganddynt felly ffordd o adnabod, codi proffil a chyfathrebu â'r gweithlu iechyd cyhoeddus. Mae'n annibynnol ar fuddiannau adrannol a phob llywodraeth. Yn 2003 sefydlwyd Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU i reoleiddio'r holl arbenigwyr iechyd cyhoeddus aml-ddisgyblaeth (o gefndiroedd heblaw am feddygaeth a deintyddiaeth). O fis Ebrill 2011 ymlaen dechreuodd y gofrestr hefyd reoleiddio ymarferwyr iechyd cyhoeddus a chafodd Cynllun Ymarferwyr Cymru ei lansio ar yr un pryd ar ôl bod yn un o'r ardaloedd peilot a fu'n llywio'r dull gweithredu. Roedd y ddau ymarferydd cyntaf i gael eu derbyn ar y gofrestr ymarferwyr yn dod o Gymru.

Ni chaiff ymarferwyr wneud cais yn uniongyrchol i gael eu cofrestru ar Gofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU a rhaid iddynt wneud cais drwy gynllun cymeradwy. Caiff Cynllun Ymarferwyr Cymru ei gynnal a'i ariannu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae nifer gyfyngedig o lefydd (10 ym mhob carfan) ar gael i ymarferwyr bob blwyddyn.

# Beth yw'r manteision?

Mae ymarferwyr iechyd cyhoeddus sy'n ymuno â Chofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU yn elwa drwy gael cydnabyddiaeth wrthrychol o'u cyflawniadau, drwy gynnal a gwella eu cymhwysedd a datblygu dewisiadau gyrfa i'r dyfodol. Mae'r broses o gofrestru ymarferwyr yn rhoi cyfle iddynt fyfyrio a dysgu oddi wrth y gwaith a wnânt, a dangos ymrwymiad i yrfa iechyd cyhoeddus i'r dyfodol. Mae cofrestriad hefyd yn dangos bod yr ymarferydd yn gymwys ac yn deall yn llawn hanfodion eu rôl ym maes iechyd cyhoeddus.

Mae'r cyhoedd yn elwa drwy wybod bod cymhwysedd, uniondeb ac atebolrwydd mewn ymarfer iechyd cyhoeddus wedi'i sicrhau, gellir archwilio hynny ar gofrestr gyhoeddus – a cheir rhywun i gwyno wrtho os aiff pethau o'u lle.

# Cofrestru Ymarferwyr ar Gofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU

## Beth mae'n ei olygu?

**Rhaid i ymarferwyr fod yn gweithio fel gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol annibynnol yn y**

**YN Y FFRAMWAITH GYRFAOEDD SGILIAU AR GYFER IECHYD LEFEL 5**

**or above for a minimum of 2 years to be suitable for the scheme.**

Er mwyn bod yn ymarferydd cofrestredig, mae gofyn i unigolion gwblhau portffolio ôl-weithredol, gan ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u cymhwysiad yn erbyn set o **34 O SAFONAU** sydd wedi'u taenu ar draws 8 Maes Ymarfer.

## Mae gan y ddogfen Gwybodaeth Ategol ar gyfer Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU o dudalen 11 wybodaeth fanwl am bob safon.

1. Ymarfer yn broffesiynol, yn foesegol ac yn gyfreithlon
2. Defnyddio gwybodaeth iechyd cyhoeddus
3. Asesu'r dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau ac ymyriadau iechyd cyhoeddus
4. Gwarchod y cyhoedd rhag risgiau iechyd
5. Gweithredu polisïau a strategaethau iechyd cyhoeddus
6. Cydweithredu ar draws sefydliadau a ffiniau
7. Cynllunio, gweithredu a gwerthuso rhaglenni a phrosiectau iechyd cyhoeddus
8. Cyfathrebu ag eraill i wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

# Hunan-asesu

Bydd gwneud hunan-asesiad llawn yn rhoi i ymarferwyr y dechrau gorau posibl ac yn eu galluogi i adolygu'r cymwyseddau a'r wybodaeth gyfredol- ynghyd â'r meysydd sydd i'w datblygu. Ceir 34 o safonau- felly dylai'r broses hon gymryd tipyn o amser.

Mae Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU wedi cyhoeddi templed ar gyfer y broses hon.

Meddyliwch am y meysydd hynny lle byddwch chi o bosibl yn gallu helpu'r ymarferydd i gael naill ai wybodaeth – neu brofiad.

# Cofiwch: Gwybodaeth, Dealltwriaeth, Cymhwysiad

Bydd gofyn i ymarferwyr ddangos y 3 elfen hon ar gyfer pob un o'r 34 safon.

## Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| Sut ydych chi'n gwybod yr hyn rydych chi'n wybod? | Cyfeiriad yn y sylwebaeth |
| O ble gawsoch chi'r wybodaeth hon? Beth ydych chi'n ei wybod? | Mae gofyn cael darn o dystiolaeth ar gyfer pob safon |

## Dealltwriaeth

| | |
|---|---|
| Pam bod hyn yn bwysig? Sut ydych chi'n sicrhau bod eich ymarfer yn gael ei ategu gan y theori uchod? | Ei ddangos drwy naratif y sylwebaeth (Dim tystiolaeth ategol yn ofynnol) |

## Cymhwysiad

| | |
|---|---|
| Sut ydych chi wedi cymhwyso eich gwybodaeth a dangos eich sgiliau wrth ymarfer? | Cyfeiriad yn y sylwebaeth. Mae gofyn cael darn o dystiolaeth ar gyfer pob safon sy'n eich lleoli chi'n glir yn y darn o waith |

## Strwythur y Portffolio

Mae rhan fawr o'r broses creu portffolio yn golygu myfyrio. Myfyrio ar Wybodaeth, Dealltwriaeth a Chymhwysiad yn gyntaf, yna ysgrifennu hyd at 3 neu 4 o ddarnau myfyriol a elwir yn "Sylwebaethau". Mae'r sylwebaethau yn cyplysu'r elfennau uchod â'i gilydd. Mae pob Sylwebaeth yn naratif am ddarn o waith maent wedi'i wneud / wedi bod yn rhan ohono, a hefyd y dystiolaeth ategol sy'n bodloni'r safon berthnasol. Gall y dystiolaeth fod mewn amrywiol fformatau gan gynnwys adroddiadau, cofnodion, negeseuon e-bost a thystlythyrau.

Ar gyfer pob safon, rhaid i'r ymarferwyr gael esiampl glir o sut buont yn gysylltiedig â chymhwyso'r safon yn eu gwaith.

Er nad oes angen iddynt fod wedi arwain y gwaith, rhaid iddynt fod yn gallu dangos eu bod yn gweithredu fel ymarferydd annibynnol.

Mae gofyn cyflwyno tystiolaeth ddogfennol i ategu'r disgrifiad o'r hyn a wnaethant (wedi'i ysgrifennu yn y sylwebaeth) er mwyn bodloni'r safon. Rhaid i'r dystiolaeth eu lleoli ynddo e.e. Enw'r ymarferydd ar ddogfennau a dyddiad creu. Defnyddiwch y dystiolaeth leiaf sy'n ofynnol i fodloni'r gofynion.

## Cefnogi'r broses o fyfyrio

Bydd cael trafodaethau rheolaidd yn helpu ymarferwyr i benderfynu:

- Pa ddarnau o waith y gallant ysgrifennu amdanynt
- Sut i ganfod DPP priodol
- Beth mae pob safon yn gofyn amdano a sut gallant ddangos tystiolaeth o hyn

Mae'r Cynllun yn darparu llawer o'r gefnogaeth hon ond byddwch yn darparu pâr o glustiau "mewnol" ychwanegol ac mae hyn yn hanfodol ar gyfer magu hyder a chynnal y cynnydd.

# Cynllun Cofrestru Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Beth mae'n ei olygu?

## Diben Cynllun Ymarferwyr Cymru yw caniatáu i ymarferwyr ddod yn gofrestredig â Chofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU.

Ceir galw eithriadol o fawr am lefydd ar Gynllun Ymarferwyr Cymru ac mae angen inni sicrhau bod gan Ymarferwyr sy'n cychwyn y broses yr amser, y capasiti a'r cymhelliad i gwblhau'r broses; fe all gymryd hyd at flwyddyn (mwy weithiau).

Disgwylir i ymarferwyr gwblhau llawer o'r gwaith yn eu hamser eu hunain fel rhan o'u datblygiad fel gweithiwr proffesiynol, ond gyda rhai adegau a digwyddiadau penodol bydd angen iddynt neilltuo eu hamser gwaith ar eu cyfer, fel a ganlyn:

- Sesiwn Gyflwyniadol Rithiol (hanner diwrnod)
- Gweithdai Sgiliau'r Portffolio (2 x hanner diwrnod)
- Adolygu Portffolio'r Ymarferydd

Mae'n bosibl y bydd angen i ymarferydd hefyd ystyried dyddiau astudio a dosbarthiadau meistr ychwanegol, ond dylai'r rheolwr llinell a'r gweithiwr gyd-drafod y rhain yn gyntaf.

Mae'r ymarferwyr cyfredol wedi dweud bod y broses o ddatblygu portffolio yn gwella eu dealltwriaeth a'u gallu i gyflawni yn eu rôl iechyd cyhoeddus, a bod cofrestru er budd i'r sefydliad cyflogi a'r ymarferydd.

***Nid*** yw'r cynllun yn rhaglen hyfforddiant, ac anogir ymarferwyr i gysylltu â'u cyflogwyr i ganfod a mynychu unrhyw gyrsiau hyfforddiant sy'n ofynnol i fodloni'r gofynion cymhwysedd technegol.

# Yr hyn a ddisgwylir oddi wrth Reolwyr Llinell

**Dylai holl reolwyr llinell ymarferwyr iechyd cyhoeddus:**

- Sefydlu'r safonau i ymarferwyr a phroses gofrestru ymarferwyr mewn gweithgaredd sy'n gysylltiedig â datblygu'r gweithlu ymarferwyr.
- Gofyn i bob ymarferydd cymwys a ydynt yn dymuno dechrau'r broses gofrestru.

# 1 Cefnogi'r Cais

Pan fo ymarferwyr yn gwneud cais i'r Cynllun, mae gofyn i'w rheolwyr llinell ddarparu datganiad o gefnogaeth a llofnodi cais yr unigolyn i Gynllun Cofrestru Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru. Drwy gymeradwyo'r cais, tybir y bydd y rheolwr llinell yn llwyr gefnogi eu hymarferydd i gyfranogi yn y cynllun.

# 2 Cefnogaeth yn y Gweithle

Fe all Rheolwyr Llinell gefnogi'r holl staff mewn rolau ymarferwyr drwy ystyried safonau ymarferwyr wrth osod amcanion gwaith, mewn sesiynau un-i-un/goruchwyliaeth barhaus a chysoni'r safonau â chyfleoedd datblygu.

Bydd ychwanegu amser i drafod y portffolio mewn cyfarfodydd un-i-un, ac fel rhan o'r broses werthuso, yn ffurfioli'r broses o ddatblygu ymarferwyr.

Mae llunio portffolio yn dipyn o gamp- ac am ben swydd amser llawn (a bywyd) gall fod yn dipyn o her ei gwblhau.

Cynigiwch amser gwarchodedig pan fo hynny'n bosibl ac os oes nifer o bobl yn y sefydliad / tîm yn cwblhau portffolios- cysylltwch nhw â'i gilydd i ffurfio grŵp cefnogi cydweithwyr.

## Cefnogaeth i Roi Sylw i Fylchau ac Anghenion Dysgu a Welwyd

Fel rhan o'r broses hon, fe allai'r ymarferydd fod wedi canfod anghenion dysgu a bylchau mewn cymhwysedd; dylid cofnodi'r rhain yn eu ffurflen hunan-asesu (sy'n rhan o'r broses ymgeisio). Gallai fod yn ddefnyddiol adolygu'r rhain gyda'r ymarferydd, a chanfod a ellir bodloni rhai o'r rhain drwy eu cynnwys mewn darnau o waith. Os oes anghenion dysgu penodol na ellir rhoi sylw iddynt yn y gweithle, cael trafodaeth gyda Chydlynydd y Cynllun fyddai'r cam nesaf.

## Cefnogi Tystiolaeth

Gall yr ymarferydd ddefnyddio tystiolaeth amrywiol i ddangos ei gymhwysedd, o negeseuon e-bost, adroddiadau, tystlythyrau a myfyrdodau. Fe all ymgeiswyr hefyd ddefnyddio unrhyw nodiadau goruchwyliaeth (gyda'r caniatâd priodol) a gymerwyd â rheolwyr llinell neu mewn sesiynau gwerthuso ac adolygiadau chwarterol/ blynyddol, os ydynt yn dangos cymhwysedd yn erbyn safonau penodol.

# 3 Ar ôl Cofrestru

Ar ôl i unigolion ddod yn gofrestredig â Chofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU fel Ymarferwyr Iechyd Cyhoeddus, bydd gofyn iddynt gynnal eu cofrestriad drwy Ddatblygu Proffesiynol Parhaus (DPP). Bydd gofyn iddynt ddangos DPP bob blwyddyn a chaiff eu cofrestriad ei ail-ddilysu bob 5 mlynedd. Dylai rheolwyr llinell sicrhau bod DPP/Datblygiad Personol yn cael ei gynnwys mewn adolygiadau/amcanion blynyddol gyda'r Ymarferydd er mwyn eu cefnogi.

## Gofynion DPP

Mae gofynion Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU yn gydnaws â'r

SAFONAU A GYHOEDDWYD GAN Y GYFADRAN IECHYD Y CYHOEDD

Rhaid i ymarferwyr fodloni'r safon hon neu safon broffesiynol arall gyfatebol.

Yn sylfaenol, mae hyn yn golygu:

- bod rhaid i ymarferwyr gyflwyno o leiaf tri, a hyd at chwech o nodiadau myfyriol bob blwyddyn ariannol
- rhaid i bob nodyn myfyriol gael ei gysylltu ag un neu ragor o'r amcanion DPP

Mae Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU yn archwilio cydymffurfiaeth yr ymarferydd â'r gofynion ynglŷn â DPP drwy'r broses adnewyddu flynyddol.

## Adnewyddu'n flynyddol

Bydd ymarferwyr yn datgan bob blwyddyn drwy eu ffurflen datganiad adnewyddu blynyddol eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion DPP. Ni ddylid gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth.

Bydd gofyn i ymarferwyr ddarparu tystiolaeth o DPP pan fyddant yn ail-gofrestru bob 5 mlynedd. Bydd hyn naill ai ar ffurf tystysgrifau'r Gyfadran Iechyd y Cyhoedd am y 5 mlynedd diwethaf neu nodiadau myfyriol (3-6) ym mhob blwyddyn ariannol dros y 5 mlynedd diwethaf.

# Crynodeb o'r Camau Gweithredu i Gyflogwyr

1. Sefydlu cofrestriad/datblygiad ymarferwyr yn strategaeth eich gweithlu
2. Gofyn i bob ymarferydd cymwys a ydynt yn dymuno dechrau'r broses gofrestru
3. Rhoi cefnogaeth ac anogaeth i rai sy'n dechrau ar y broses gofrestru
4. Ymgysylltu â'r uwch dîm – mae dod yn asesydd/dilysydd yn DPP ardderchog
5. Edrychwch sut allwch chi helpu drwy ddysgu am ofynion y portffolio

## I gael rhagor o wybodaeth:

- **PHW Internet Page**
- **UKPHR**

Cysylltu â ni: **PeopleSupport.PHW@wales.nhs.uk**

UKPHR
Public Health Register
Protecting the public | improving practice

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales